# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **15 Rhagfyr 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas**<br>**Aelod Cabinet Economi a Chymuned** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Llyr B Jones**<br>**Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned**<br>**Esyllt Rhys Jones**<br>**Rheolwr Rhaglenni Adfywio** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **LlyrBJones@gwynedd.llyw.cymru**<br>**01286 679219 (est.32219)**<br><br>**EsylltRhysJones@gwynedd.llyw.cymru**<br>**01286 679513 (est. 32513)** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynnal Pleidlais Ardaloedd Gwella Busnes Bangor** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1. Nodi fod y Cynnig Ardal Gwella Busnes (AGB) a dogfennau atodol gan Gwmni Ardal Gwella Busnes Bangor wedi eu derbyn gan y Cyngor a'u bod yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau;
2. Fod y Cabinet yn cyfarwyddo'r Swyddog Canlyniadau i gynnal pleidlais AGB Bangor;
3. Cymeradwyo'r trefniadau a'r goblygiadau ariannol a nodir yn Rhan 3 o'r adroddiad;
4. Dirprwyo'r hawl i Aelod Cabinet Economi i bleidleisio ar ran yr Awdurdod ym mhleidlais yr AGB.
5. Os yw'r bleidlais yn llwyddiannus ym Mangor, ac yn unol â Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005, dirprwyo hawl i Benaethiaid Gwasanaethau Economi, Amgylchedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyfreithiol a Chyllid i gymeradwyo'r fersiwn derfynol

o’r Cytundeb Ymarferol a’r Cytundeb Gwaelodlin a sicrhau fod y trefniadau cyfreithiol yn cael eu cwblhau yn gywir.

## 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Fe nodir yn Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005 fod angen i awdurdodau lleol awdurdodi broses o gynnal pleidlais Ardal Gwella Busnes. Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, y Cabinet sydd yn gyfrifol am awdurdodi hyn.

2.2. Mae gan awdurdodau lleol yr hawl feto os yw’n ystyried y byddai cynigion AGB yn debygol o wrthdaro’n sylweddol gyda pholisi presennol, yn gosod baich ariannol ar drethdalwyr, neu fod baich yr ardoll yn rhy uchel. Fodd bynnag, fe gefnogir y bwriad o gynnal pleidlais oherwydd :

- Mae’r cynnig AGB Bangor yn ymateb i heriau sydd wedi eu hadnabod gan y gymuned fusnes.
- Wrth gynnal pleidlais, mae’r gymuned fusnes yn derbyn y cyfle i gefnogi sefydliad yr AGB er mwyn rhoi’r gallu iddynt wireddu’r amcanion sydd wedi eu nodi o fewn y cynlluniau busnes.
- Gallai’r AGB arfaethedig ddenu buddsoddiad ychwanegol ag uchafu cynnig a phroffil Bangor
- Byddai’r AGB yn gyfrwng i gydweithio gyda’r Cyngor i ddarparu gwasanaethau ychwanegol.

## 3 CYFLWYNIAD

3.1. Yn dilyn pleidlais lwyddiannus yn ôl yn 2015 sefydlwyd Ardal Gwella Busnes Bangor yn Ebrill 2016 ac fe sefydlwyd cwmni AGB Bangor i weithredu’r AGB. Yn unol â Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005 dim ond am gyfnod o 5 mlynedd mae AGB yn weithredol ac mae’n ofynnol dilyn proses debyg eto ar gyfer tymor arall. Y sefyllfa bresennol yw bod tymor AGB Bangor yn dirwyn i ben 31 Mawrth 2021.

3.2. Er mwyn cynnal pleidlais am gyfnod pellach mae’n ofynnol i Gwmni AGB, yn unol â Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005 gyflwyno rhybudd ar yr Awdurdod Bilio er mwyn gallu cynnal y bleidlais. Yn unol â’r Rheoliadau'r Cyngor ydi’r Awdurdod Bilio.

3.3. Mae AGB Bangor wedi cyflwyno rhybudd a chynnig newydd ar gyfer yr AGB i’r Cyngor. Y rheswm am gyflwyno rhybudd AGB newydd yw bod dymuniad i ymestyn ffiniau'r AGB ar yr un pryd ac adnewyddu. Golyga hyn mae’r unig opsiwn, yn unol â Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005, i wneud hyn yn gydamserol yw drwy ddilyn trefniadau proses ffurfio AGB newydd. Dylid nodi nad ydi hyn yn golygu fod Cwmni'r AGB yn dod i ben a bod Cwmni arall yn cael ei sefydlu.

3.4. Mae Cwmni AGB Bangor wedi cyflwyno'r rhybudd i'r Cyngor ac mae'r cynigion sydd wedi eu derbyn wedi eu hadolygu. Nid yw'n ymddangos fod y rhybudd yn gwrthdaro gydag unrhyw bolisi sydd gan y Cyngor. Gyda chymeradwyaeth y Cabinet y cam nesaf fydd i'r Cyngor gyfarwyddo'r Swyddog Canlyniadau i gynnal y bleidlais.

3.5. Fel rhan o'r broses, mae Cwmni'r AGB wedi bod yn ymgynghori gyda'r cyfarwyddwyr ynghyd a'r busnesau sydd yn talu'r ardoll am eu cynigion ar gyfer 2021-2026. Mae'r Cynnig AGB a'r atodiadau wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.

3.6. Rhagwelir y bydd manylion a threfniadau'r AGB arfaethedig yn adlewyrchu trefniadau 2016 gan godi ardoll o 1.5% (ac 1.25% mewn canolfannau siopa) yn erbyn cyfradd trethi annomestig, gan eithrio eiddo sydd â gwerth trethiannol llai na £5,000. Amcangyfrifir y byddai'r AGB yn codi hyd at £170,000 y flwyddyn (sef £850,000 dros 5 mlynedd) ym Mangor.

Amserlen

3.7. Mae'r anghenion cyfreithiol sydd yn gysylltiedig â chynnal y bleidlais wedi ei gynnwys yn yr amserlen isod:

| Gweithredu | Angen o fewn y Rheoliadau | Dyddiad * |
|---|---|---|
| Penderfyniad Cabinet | | 15.12.20 |
| Swyddog Canlyniadau i gyhoeddi'r bleidlais | 42 dydd cyn y bleidlais | 06.01.21 |
| Cyhoeddi papurau pleidleisio | Dydd olaf: 28 dydd cyn dydd y bleidlais | 01.02.21 |
| Dydd y bleidlais | | 04.03.21 |
| Cyfri'r pleidleisiau | Cyn gynted ag yn ymarferol bosibl ar ôl dydd y bleidlais | 05.03.21 |
| Cyhoeddi'r canlyniad | | 05.03.21 |
| Dydd cychwyn yr AGB | | 01.04.21 |

* syniad amlinellol o'r amserlen yw hon. Gall y dyddiadau amrywio os oes penderfyniad i gynnal y ddwy bleidlais ar ddyddiadau gwahanol.

3.8. Os yw'r bleidlais yn llwyddiannus bydd Cwmni AGB Bangor a'r AGB yn parhau yn weithredol hyd at 31 Mawrth 2026. Os fydd y bleidlais yn

aflwyddiannus bydd Cwmni AGB Bangor a’r AGB yn dirwyn i ben 31 Mawrth 2021.

Cytundebau Ffurfiol

3.9. Yn unol â’r Rheoliadau, mae cyfres o gytundebau rhwng y Cyngor a Chwmni AGB. Mae’n rhaid i’r cytundebau hyn fod mewn lle yn dilyn pleidlais o blaid:

*Cytundeb Gwaelodlin*: mae’r cytundeb hwn yn diffinio'r lefel o wasanaeth sydd yn cael eu gweithredu gan y Cyngor o fewn ardal yr AGB. Yn unol â’r cytundeb bydd yn ofynnol i’r Cyngor hysbysu Cwmni AGB o unrhyw newid i’r gwasanaeth hwn yn ystod ei dymor. Pwrpas y cytundeb hwn ydi i dawelu meddyliau busnesau, o fewn yr ardal, nad ydynt yn talu’r ardoll ar gyfer gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli. Mae’r cytundeb hwn ar hyn o bryd yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau fod y fersiwn gyfredol yn adlewyrchu gwasanaethau cyfredol y Cyngor o fewn ffiniau'r AGB. Bydd drafft o’r cytundeb yn cael ei negodi gyda Chwmni’r AGB. Yn ddarostyngedig i ganlyniad ‘Ie’ bydd y cytundeb yn cael ei gytuno a’i ffurfioli.

*Cytundeb Ymarferol* : dogfen yw hon sydd yn gytundeb rhwng Cwmni AGB a’r Cyngor yn amlinellu a gosod trefniadau gweinyddol, casglu'r ardoll a’r manylion gorfodaeth yng nghyd-destun ardoll yr AGB. Y Cyngor sydd a’r hawl cyfreithiol i sefydlu trefniadau ariannol ac i anfonebu a chasglu'r ardoll yng Ngwynedd. Mae’n ofynnol o dan y Rheoliadau fod Cyfrif Refeniw AGB wedi ei sefydlu. Bydd y trefniant yn dirwyn i ben oni bai am bleidlais lwyddiannus ac yna bydd disgwyl i Gwmni AGB a’r Cyngor gytuno i Gytundeb Ymarferol newydd o 1af Ebrill 2021 ymlaen. Pe byddai’r bleidlais yn erbyn yr AGB bydd angen i’r Cyngor a chwmni AGB negodi'r telerau terfynol. Mewn sefyllfa o’r fath mae’r risg ariannol yn gysylltiedig ag ardollau heb eu talu yn gyfrifoldeb i’r AGB ac nid y Cyngor.

Goblygiadau AGB Bangor i Gyngor Gwynedd

3.10. Rhagwelir y byddai oblygiadau canlynol i’r Cyngor fel yr awdurdod lleol perthnasol :

*Goblygiadau Ariannol* - Mae gan y Cyngor 16 hereditament unigol o fewn ffin yr AGB Bangor. Fel busnes sydd yn talu trethi busnes mae cost yn gysylltiedig â phleidlais lwyddiannus. Mae’r tabl isod yn amlinellu be fyddai cost flynyddol i Gyngor Gwynedd dros dymor nesaf yr AGB Bangor pe byddai’r bleidlais o blaid. Byddai’r ardoll yn swm sefydlog dros dymor yr AGB.

| Hereditament | Gwerth Trethiannol | Cost yr Ardoll |
|---|---|---|
| Caffi Storiel | 6,700 | 100.50 |
| Storiel | 37,500 | 562.50 |
| Llyfrgell | 17,750 | 266.25 |
| "Library Hall", Ffordd Gwynedd | 4,050 | 0.00 |
| Maes Parcio Canondy | 13,750 | 206.25 |
| Toiledau Cyhoeddus Ffordd Garth | 1,750 | 0.00 |
| Maes Parcio Glanrafon | 23,750 | 356.25 |
| Maes Parcio Allt Y Castell | 6,600 | 99.00 |
| Toiledau Cyhoeddus Pencastell | 3,250 | 0.00 |
| Maes Parcio James Street | 8,600 | 129.00 |
| Maes Parcio Sgwâr Kyffin | 23,250 | 348.75 |
| Maes Parcio Minafon | 15,750 | 236.25 |
| Llys Gwynedd | 5,400 | 81.00 |
| Swyddfeydd Uwch Swyddfa Arriva | 5,900 | 88.50 |
| Maes Parcio Plasllwyd | 31,500 | 472.50 |
| Ail Lawr, Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor | 3,300 | 0.00 |
| **Cyfanswm** | **208,800** | **2,946.75** |

*Proses o Gynnal y Bleidlais* - Yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Cabinet, bydd Cyngor Gwynedd yn unol a'r rheoliadau yn cyfarwyddo y Swyddog Canlyniadau (a benodwyd dan Adran 35 Deddf

Cynrychiolaeth y Bobol) i gynnal pleidlais o'r gymuned fusnes o fewn yr ardal ddynodedig i brofi cefnogaeth i AGB ym Mangor.

*Pleidlais y Cyngor* - yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Cabinet, yn unol a'r trefniadau yn 2015, bydd Aelod Cabinet Economi yn penderfynu sut y bydd y Cyngor yn pleidleisio ac sawl pleidlais gaiff eu bwrw.

*Cytundebau cyfreithiol* - bydd y cytundebau arfaethedig a ddisgrifir uchod yn cael eu cwblhau a byddant yn sail i drefniadau cydweithio rhwng y ddau sefydliad.

*Cefnogaeth Hir Dymor* - Os bydd y bleidlais yn llwyddiannus, bydd Cyngor Gwynedd yn cefnogi AGB Bangor yn ystod yr ail dymor gan gefnogi a phlethu eu hun i waith adfywio a datblygu economi Bangor ymhellach.

Effaith ar Fframwaith Bolisi a Chaffael

Nid oes goblygiadau'r fframwaith bolisi na rheolau caffael.

Materion Cydraddoldeb

3.11 Nid oes gan gynnwys yr adroddiad hwn oblygiadau cydraddoldeb uniongyrchol.

3.12 Materion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3.13 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn adnabod saith nod llesiant. Mae'n gosod uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'r adroddiad hwn a'r gwaith yn gysylltiedig â'r AGB yn ymateb i'r Nodau Llesiant hyn:

- Cymru Lewyrchus - Yng Ngwynedd mae'r sector fanwerthu a busnesau yng nghanol ein trefi yn cyfrannu yn sylweddol tuag at economi'r sir ynghyd a chynnig trawstoriad o gyfleoedd cyflogaeth. Mae canol Dinas Bangor yn cyfrannu'n sylweddol tuag at economi Gwynedd;
- Cymru Iachach - mae ymweld â chanol ein trefi, gyda'r amrediad o wasanaethau, atyniadau a mannau agored yn cyfrannu tuag at iechyd a lles unigolion;
- Cymru sy'n fwy cyfartal - mae canol trefi yn fannau sydd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd a darpariaethau i drawstoriad eang o'r boblogaeth, beth bynnag fo cefndir nag amgylchiadau'r unigolion;
- Cymru o Gymunedau Cydlynus - mae canol trefi bywiog a ffyniannus yn cynnig amrediad o wasanaethau, adloniant, siopau a gwasanaethau mewn amgylchedd braf a diogel. Mae hyn yn allweddol i ddyfodol cymunedau;

- Cymru a Diwylliant Bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu - mae canol trefi yn cyfrannu tuag at warchod ein diwylliant drwy ei phobl, atyniadau, a gwasanaethau ynghyd a’r gwaith o hyrwyddo’r Gymraeg. Mae Bangor yn ddinas ddiwylliedig sydd wedi ei chyfeirio ati fel Dinas fwyaf Cymreig Cymru;
- Cymru sy’n gyfrifol ar lefel byd eang - mae cefnogi canol trefi, y busnesau a chynhyrchwyr lleol yn cefnogi'r agenda lleihau carbon. Mae'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus o fewn canol trefi yn allweddol.
- Cymru Gydnerth - mae canol ein trefi yn allweddol wrth sefydlu strwythurau a chyfleoedd sydd yn gallu wynebu ac ymateb i heriau economaidd a chymunedol i’r dyfodol.

**4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

4.1. Mae Ardaloedd Gwella Busnes yn cael eu cydnabod fel cerbyd adfywio lleol sydd yn ymateb yn uniongyrchol i heriau economaidd ac amgylcheddol cymunedau busnes canol trefi. Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i’r model hyn o weithio ac wedi cefnogi Awdurdodau Lleol dros y blynyddoedd diwethaf i’w sefydlu ac i’w cefnogi. Cant eu gweld gan Lywodraeth Cymru fel rhan allweddol o’r broses adfywio yng nghyd-destun eu Rhaglenni Buddsoddiad Adfywio.

4.2. Mae Adran Economi a Chymuned y Cyngor hefyd yn gefnogol i Ardaloedd Gwella Busnes fel sefydliad sydd a’r gallu o yrru agenda adfywio o fewn trefi gan symbylu datblygiadau economaidd lleol. Mae’r buddsoddiad mae’r busnesau yn ei wneud drwy dalu y lefi yn sicrhau fod modd mynd i’r afael a materion pwysig o fewn y gymuned fusnes a bod perchnogaeth leol i geisio ymdrechu i wneud Bangor yn le mwy ffyniannus.

4.3. Ym Mangor, mae’r AGB wedi bod yn gyfrwng pwysig dros y blynyddoedd diwethaf yng nghyd-destun trafodaethau adfywio canol dinas Bangor ac mae partneriaeth gref wedi ei sefydlu rhwng y Cyngor a chwmni AGB Bangor. Mae’r cwmni yn chwarae rôl allweddol ym Mhartneriaeth Strategol Bangor . Mae Bangor wedi ei flaenoriaethu ar lefel Ranbarthol, ar sail angen, ar gyfer cefnogi a gallwn weld fod rôl yr AGB wrth weithio mewn partneriaeth i adfywio'r Ddinas yn allweddol.

**5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

5.1. Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cabinet, bwriedir cyhoeddi’r bleidlais erbyn 6 Ionawr 2021. Unwaith byddai’r rhybudd wedi ei gyflwyno, byddai hyn yn caniatáu rhydau’r papurau pleidleisio ynghyd a manylion y cynigion arfaethedig (gyda nodiadau esboniadol) yn ystod mis Chwefror 2021.

5.2. Yn unol â’r amserlen uchod, byddai dyddiad cau pleidlais bost erbyn 4 o Fawrth 2021, a’r canlyniad ar 5 o Fawrth 2021. Gall y dyddiadau

amrywio os oes penderfyniad i gynnal y ddwy bleidlais ar ddyddiadau gwahanol.

5.3. Pe byddai pleidlais o blaid AGB bydd y penderfyniad yn dod yn weithredol o 1af Ebrill 2021.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Sylwadau Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Gwasanaeth Trethi wedi gweithio gyda cwmni AGB Bangor dros gyfnod 5 mlynedd gyntaf y cynllun er mwyn casglu'r ardoll ar ran y cwmni, sicrhau ei fod yn cael ei drosglwyddo'n briodol i'r cwmni a chymryd camau priodol i adfer ôl-ddyledion. Felly, os mai canlyniad y bleidlais yw y dylai'r Ardal Gwella Busnes barhau, mae'r gofynion gweinyddol eisoes yn eu lle ac yn gyfarwydd i ni. Mae'r ardoll yn cael ei filio ar wahân i'r Ardreth Annomestig a dylid nodi nad yw'r Cyngor yn trosglwyddo unrhyw arian i'r cwmni tan bydd wedi cael ei gasglu gan y Gwasanaeth Trethi a'i anfonebu'n briodol gan y cwmni.

Rwyf wedi cydweithio ag awdur yr adroddiad ac rwyf yn fodlon â chywirdeb ffigyrau'r ardoll sy'n ymddangos yn y rhan "Goblygiadau AGB Bangor i Gyngor Gwynedd" o'r adroddiad. Mae'r cyfraniad ychydig yn is nag oedd yn y cyfnod cyntaf, gan fod isafswm gwerth ardrethol eiddo sy'n destun ardoll wedi cynyddu o £2,000 i £5,000.

Sylwadau Swyddog Monitro

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi cynghori ar yr adroddiad yma dim sylwadau I'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

Dogfennau Ychwanegol

- Cynnig AGB Bangor
- Cytundeb Gwaelodlin Drafft
- Cytundeb Ymarferol Drafft